The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Northern Ireland Assembly

**Finance and Public Administration Committee**

**Y Pwyllgor Cyllid**
**—**
**Finance Committee**

**Committee for Finance**

Gwir Anrh. Darren Jones AS
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

Ar ebost at: action.cst@hmtreasury.gov.uk

Annwyl Darren,

# Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid

Unwaith eto, hoffem ddiolch i chi am eich presenoldeb ar-lein yng nghyfarfod y Fforwm ar 19 Mawrth 2025; er ei fod yn gryno, fe'i gwerthfawrogir yn fawr. Mae'r Fforwm yn gweld gwerth sylweddol mewn ymgysylltu â chi a'r Canghellor. Fel y nodwyd yn y cyfarfod, byddai'r Aelodau wedi hoffi i'r ymgysylltiad bara llawer hirach ac iddo fod wyneb yn wyneb. Felly, gofynnem i'r ddau ohonoch ymateb yn ffafriol yn y dyfodol i wahoddiadau i roi tystiolaeth, naill ai gan y Fforwm neu gan ein gwahanol Bwyllgorau.

Fel y byddwch chi a'r Canghellor yn gwerthfawrogi, rôl greiddiol pob un o'n Pwyllgorau yw craffu yn gadarn ar gyllidebau cyffredinol y Llywodraethau datganoledig ac, fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r cyllidebau hynny'n ddibynnol iawn ar weithredoedd y Trysorlys. Ymgysylltu yn uniongyrchol â chi a/neu'r Canghellor yw'r unig ffordd yn aml i'r gwaith effeithiol hwnnw o glywed tystiolaeth ddigwydd.

Dylai ystyriaeth o'r gwahoddiadau hyn adlewyrchu ymgysylltiad y Trysorlys â'r deddfwrfeydd datganoledig mewn seneddau blaenorol a'r canllawiau a nodir yng Nghanllaw 12 ar Ddatganoli (sydd ynghlwm er gwybodaeth), yn benodol paragraff 5 sy'n nodi:

> *"While UK Ministers' over-riding responsibility is to the Parliament at Westminster, any request for a Minister to attend a Committee of a devolved legislature should be treated with as much care and courtesy as an invitation to attend a Commons or Lords Select Committee. If the assessment of the legal position is that a Minister could be required to attend a meeting then sending a representative will not usually be acceptable and every endeavour should be made to attend when and as required by the devolved legislature."*

Byddai'r dull hwn hefyd yn sail i awydd y Fforwm, a fynegwyd hefyd gennych chi a Llywodraeth y DU, inni ailsefydlu cysylltiadau a symud ymlaen gyda mwy o gydweithredu a chydweithio rhwng ein gwahanol lywodraethau a deddfwrfeydd.

Rydym yn siŵr y byddwch yn cytuno y bydd mwy o ymgysylltu â'r Trysorlys yn creu mwy o gyfleoedd i'r Aelodau drafod dyraniad cyllidebau a chyllid arall i'r llywodraethau datganoledig, ynghyd â rhagor o wybodaeth a gwell gwybodaeth a rhagor o dryloywder ynghylch penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar Lywodraethau Datganoledig. Mae'r Fforwm yn llwyfan rhagorol ar gyfer cynnal yr ymgysylltu hwnnw ac mae'n edrych ymlaen at gydweithio'n agosach â chi yn y dyfodol ar y materion sy'n peri pryder i ni i gyd.

Anfonir copi o'r ohebiaeth hon er gwybodaeth at Bwyllgor Dethol y Trysorlys.

Yn gywir,

| Kenneth Gibson | Peredur Owen Griffiths | Mr Matthew O'Toole |
|---|---|---|
| Cadeirydd<br>Y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus<br>Senedd yr Alban | Cadeirydd,<br>Pwyllgor Cyllid,<br>Senedd Cymru | Cadeirydd,<br>Y Pwyllgor Cyllid,<br>Cynulliad Gogledd Iwerddon |

Cc.
Pwyllgor y Trysorlys: (treascom@parliament.uk)
Pwyllgor Dethol Materion yr Alban (scotaffcom@parliament.uk)
Pwyllgor Dethol Materion Cymreig (welshcom@parliament.uk)
Pwyllgor Dethol Materion Gogledd Iwerddon (northircom@parliament.uk)